



Bore Sul Mai 12fed, 2019



Croeso cynnes i chi i gyd y bore 'ma.

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol sydd yn arwain yr oedfa.

Yr Wythnosau Nesaf

**Mai 19eg Sul Teuluol gyda Lyn
a Mike West a Gwilym a Beti**

**Mai 26 Gethin Rhys, gyda
Keith Rowlands yn llywyddu**

Mehefin 2il Sul Pentrefi

Llantrisant, Llanharan a Meisgyn

Mehefin 9ed Aled Edwards

**gyda Gwerfyl Morse yn
llywyddu**

**Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng
Nghymru**

Estynnir gwahoddiad cynnes i aelodau eglwysi a chapeli Cymraeg Caerdydd a'r cylch i fynychu Darlith Goffa Gethin Abraham-Williams 2019 sydd i'w chynnal yn Neuadd y Senedd, Bae Caerdydd am 7yh dydd Llun 20fed o Fai 2019. Bydd Aled Edwards yn darlithio eleni ar **'Ffydd, Datganoli a Gwleidyddiaeth Fyd-eang.'**

Bydd Cytûn yn nodi 20 mlynedd o gydweithio rhwng cymunedau ffydd a'r Cynulliad Cenedlaethol.

**CASGLIADAU DILLAD A
NWWYDDAU**

Mae'r casgliadau ar gyfer Adref, Nantgwyn, a Cwtch yn dal yn weithredol eleni. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cyfraniadau cyson i'r elusennau allweddol yma.

APÊL

Mae criw bychan o wirfoddolwyr wedi bod wrthi'n llafurio yn y fynwent a'r rhandiroedd bob bore lau ers misoedd lawer er mwyn clirio'r gordyfiant. Bellach mae'r gwaith ardderchog a gyflawnwyd ganddynt yn tynnu tua'i derfyn. Ond wedi treulio'r holl amser wrth y gwaith mae'r llafurwyr yn y maes yn dechrau diffygio ac yn erfyn yn daer am ragor o wirfoddolwyr i ymuno gyda nhw am awr neu ddwy ar foreuau lau er mwyn cwblhau'r gwaith dros yr wythnosau nesaf.

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch gydag un o'r canlynol: Emlyn 'Pens' Jones; Edwyn Evans neu Mike West. Diolch.

Merched y Wawr Tonysguboriau a Merched y Tabernacl ar y cyd

Gwahoddiad agored i'r
Tabernacl ar Fai 22ain am 7.30 i
glywed Gwenno Rees yn son am
ei blwyddyn ym Mhatagonia.
Croeso i bawb.

ELUSENNAU 2019

Dyma'r elusennau y byddwn yn
eu cefnogi drwy gasgliad yr
amlenni brown eleni:

Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon
Taf, Adref, Ysgol Tŷ Coch
Cymorth i Ferched Cymru &
CRICA. Mae pedair o'r rhain yn
lleol ac yn gwerthfawrogi ein
cefnogaeth gyson. Mae CRICA yn
ymchwilio i Glefyd Crohn ac yn
cefnogi plant a phobl ifanc sy'n
dioddef o'r cyflwr.

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan:
carolinerees2@hotmail.com
neu decstio **Caroline** ar
07539452130

Cyfundeb Dwyrain Morgannwg

Cynhelir taith *Heddwch yn y
Ddinas* dan arweiniad Jon Gower
am 11 bore Sadwrn 18 Mai. Taith
gerdded hamddenol o amgylch
canol Caerdydd fydd y daith hon
gyda chyfle am banded a gorffwys.
Man cychwyn: Y Deml Heddwch,
Parc Cathays, Rhodfa'r Brenin
Edward VII, Caerdydd CF10 3AP.

Rhowch wybod i Gwilym
(gehpengwern@yahoo.co.uk) neu
Emlyn
(emlyn.pentyrch@btinternet.com)
os ydych am ddod ar y daith cyn
gynted a phosib

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL:

'Rydym yn gymuned o bobl sydd
wedi ymrwymo yn wirfoddol i
geisio tyfu gyda'n gilydd mewn
dealltwriaeth a gallu i ymarfer
dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu.